

# ichthus

**CYLCHGRAWN CHWARTEROL EGLWYS BEREA NEWYDD, BANGOR**  
Rhif 4 Cyfrol 12 Hydref 2015

[www.gofalaethbangor.org](http://www.gofalaethbangor.org) - 01248 353132 (swyddfa)

---



# NOSON O LAWENYDD

# GWASANAETHAU'R SUL

**10.00:** OEDFA DEULUOL GAN GYNNWYS YSGOL SUL Y PLANT

**11.00:** YSGOL SUL YR OEDOLION **5.30:** OEDFA'R NOS

<b>Tachwedd 1</b>	Gweinidog <i>Cymun Bore</i>	<b>Rhagfyr 27</b>	Karen Owen, <i>bore'n unig</i>
<b>8</b>	Y Barch. Cath Williams		
<b>15</b>	Gweinidog	<b>2016</b>	
<b>22</b>	Gwilym Williams, <i>Bore Undebol Hwyr Penuel</i>	<b>Ionawr 3</b>	Gweinidog
<b>29</b>	Y Parch. Pryderi Ll. Jones	<b>10</b>	Y Parch. Cledwyn Williams
<b>Rhagfyr 6</b>	Gweinidog <i>Cymun Bore</i>	<b>17</b>	Gweinidog
<b>13</b>	Y Parch. Dafydd Lloyd Hughes	<b>24</b>	Y Barch. Megan Williams
<b>20</b>	Nadolig y Plant a'r Ieuenctid	<b>31</b>	Y Parch. Gerallt Lloyd Evans

## DYLETSWYDDAU (BLAENOR Y PYTHEFNOS)

<b>Tachwedd 1</b>	Menna Baines	<b>13</b>	Robat Roberts
<b>8</b>	Menna Baines	<b>20</b>	Robat Roberts
<b>15</b>	Elizabeth Roberts	<b>27</b>	Gareth Emlyn Jones
<b>22</b>	Elizabeth Roberts		
<b>29</b>	Elin Walker Jones	<b>2016</b>	
<b>Rhagfyr 6</b>	Elin Walker Jones	<b>Ionawr 3</b>	Gareth Emlyn Jones

## RHODDWYR Y BLODAU (Cydllynydd: Elizabeth Roberts - 353915)

<b>Tachwedd 1</b>	Griff Jones	<b>29</b>	Eirian Howells
<b>8</b>	Sara Tudor	<b>Rhagfyr 6</b>	Gwen Hughes
<b>15</b>	Ann Roberts	<b>13</b>	Enid Roberts
<b>22</b>	Morfydd Roberts	<b>20</b>	Eleri W. Jones

# GAIR GAN Y GWEINIDOG

---

Y PARCHEDIG ELWYN RICHARDS

**H**yfrydwch yw eich cyfarch ar dudalennau *Ichthus*, a hynny fel eich gweinidog. Rwyf eisoes wedi cael croeso mawr yn eich plith, ac mae cydweithrediad parod y blaenoriaid, hynawsedd y plant a'r athrawon ysgol Sul, a dymuniadau da cymaint ohonoch wedi gwneud i mi deimlo'n gartrefol iawn ym Merea Newydd a'r ofalaeth.

Diolch yn arbennig am y gefnogaeth a gafwyd i'r Cyfarfod Sefydllu, ac i bawb a gymerodd ran yn yr oedfa. A'r cyfarfod wedi ei gynnal ar ddiwrnod 'Shwmae Sumae', pryd yr anogid pawb i gyfarch ei gilydd yn Gymraeg, roedd yn addas iawn mai'r Parchg Richard Brunt, brodor o Wlad yr Haf yn wreiddiol, a gweinidog ein heglwysi Cymraeg yn Llundain, ac un a ddysgodd Gymraeg yn rhugl, a roddodd yr anerchiad. Cafwyd neges loyw a pherthnasol ganddo, a bu cael cwmni cymaint o aelodau'r ofalaeth a'r henaduriaeth, a ffrindiau a chydweithwyr yn y gwasanaeth yn fendith fawr.

O dipyn i beth yr wyf yn dod i adnabod mwy a mwy ohonoch yn well wrth i mi gael cyfle i ymweld â chi mewn ysbyty, cartref preswyl neu ar eich aelwyd. Oherwydd fy nyletswyddau fel Llywydd y Gymanfa Gyffredinol, a fydd yn parhau hyd fis Gorffennaf nesaf, nid wyf yn gallu bugeilio cymaint ag y byddwn yn dymuno, ac mae'r ymweliadau hyd yma wedi bod ag aelodau a fu yn fregus eu hiechyd neu mewn profedigaeth. Diolch i'r blaenoriaid am fy nghyfeirio yn hyn o beth. Hoffwn apelio hefyd ar bawb ohonoch i adael i mi wybod am unrhyw un a hoffai i mi alw i'w fugeilio.

Cofiw'n yn ein gweddïau am bawb sy'n llesg neu yn dioddef pryder o unrhyw fath. Gwn fod nifer o aelodau wedi bod yn wael eu hiechyd dros yr haf, a dymunwn iddynt oll nerth ac adferiad. Yn yr un modd gweddiwn y bydd y teuluoedd hynny sydd wedi cael profedigaeth yn derbyn cysur ac yn profi tangnefedd yr efengyl. Bylchwyd sawl aelwyd oedd â chysylltiad â'r eglwys, a chollwyd un aelod yn ystod yr haf, sef y diweddar Ddr Dafydd Wynn Parry, oedd yn gyn-flaenor ac a wasanaethodd yn ffyddlon fel athro ysgol Sul dosbarth yr oedolion.

Boed Duw yn nodedd ac yn nerth i ni i gyd, ac mewn cyfnod pryd y clywn yn gyson am ormes a rhyfel, ac y gwelir miliynau'n ddigartref, boed i ninnau weithio a gweddïo i sefydlu Ei Deyrnas ar y ddaear.

# CYFARFOD SEFYDLU EIN BUGAIL NEWYDD

---

GARETH JONES

**N**os Iau y 15ed o Fedi fe gynhaliwyd cyfarfod sefydlu ein bugail newydd, sef y Parchedig Ddoctor Elwyn Richards. Daeth cynulleidfa dda i'r gwasanaeth o eglwysi Bangor ac o eglwysi Henaduriaethau Arfon a Môn ac ymhellach. Cafwyd gwasanaeth hwyliog a bendithiol a phaned ar y diwedd i gloi'r noson mewn ysbryd o gyfeillgarwch a llawenydd.

Llywyddwyd y gwasanaeth gan y Dr W. Gwyn Lewis (Llywydd Henaduriaeth Arfon) a chymerwyd rhan gan y Parchedigion Gwenda Richards, Marcus Robinson, Eric Jones, Megan Williams, Olaf Davies, Richard Brunt ac Edwin O. Hughes. Byrdwn y gweddiau oedd gofyn am fendith ar yr ofalaeth a'i bugail newydd ac i'r holl aelodau beidio digalonni a llaesu dwylo ond yn hytrach i barhau i weithio'n frwdfrydig tros Grist gan fod gan bob aelod ei ran i'w chwarae a'i gyfraniad i'w wneud.

Cynrychiolwyd tair eglwys yr ofalaeth yn y gwasanaeth gan blant ac aelodau o'r eglwysi unigol a chroesawyd y gweinidog i'w ofalaeth gan Mr John H. Wynn Jones. Soniodd am y cydweithrediad oedd yn bodoli rhwng y tair eglwys ac yn benodol am y cydweithio hapus a fu twy'r cyfnod penodi.

Wrth ymateb i'r croeso, diolchodd y Dr Richards i bawb a gymerodd ran yn y gwasanaeth ac i bawb a oedd wedi dod i'w gefnogi. Dywedodd mor falch oedd o fod yng nghwmni ffrindiau a'i fod wedi cael croeso mawr yn barod. Ei fwriad a'i sicrwydd oedd cael cydweithio'n hapus a bendithiol yn yr ofalaeth ac adeiladu ar yr hyn a fu o'r blaen.

Rhoddyd anerchiad gan y Parch Richard Brunt, ffrind coleg i Dr Richards ac un sydd yn ei adnabod yn dda. Dewisodd ddameg y Gweithwyr yn y Winllan fel thema gan bwysleiso nad neges economaidd oedd y ddameg ond neges ysbrydol sef fod Duw yn rhoi i bawb yn ôl ei haelioni ei hun ac nid yn ôl haeddiant yr unigolyn.

## **Dewisodd dri phennawd perthnasol sef:**

- **'Persbectif'** newydd gyda phwyslais ar drin pawb yr un fath: dywedodd Richard Brunt ei fod yn gydwybodol sicr mai felly y bydd y gweinidog newydd yn trin ei aelodau mewn ysbryd o gydweithio. Tystiolaethodd am brofiad Elwyn Richards mewn addysgu, ei ddealltwriaeth o ddiwinyddiaeth a'i allu i bregethu.

• **Adeiladu** perthynas gan mai hanfod gras yw perthynas. Ni allwn bwyso a mesur perthynas yn ôl safonau'r byd ac mewn gwir berthynas mae pawb yn cael ei drin yn gyfartal. Dyma un o nodweddion pennaf natur Elwyn Richards fel unigolyn a gweinidog, ac un sydd â'r ddawn i drin pobol. 'Unrelenting' oedd y gair a ddefnyddiodd am ei agwedd at ei waith, un sydd yn llafurio'n ddi-baid ond heb gollu golwg ar bobol.

• **Meithrin** parodwydd i fod yr un mor hael wrth bawb, ac un felly yw ein gweinidog newydd, yn hael â'i amser a'i gefnogaeth ac yn rhoddwr wrth natur, yn gwneud ei gymwynasau yn y dirgel ac yn gweithio'n dawel a thrylwyr.

Tynnwyd y gwasanaeth i'w derfyn gan y Parch Edwin Hughes, un arall sydd yn adnabod Elwyn Richards yn dda. Llongyfarchodd y gweinidog ar ei benodiad a diolchodd i bawb am wasanaeth bendithiol. Dymunodd bob bendith i'r ofalaeth a nododd y croeso amlwg a'r gefnogaeth oedd yn bodoli'n barod. Mewn gair wrth y gynulleidfa, gofynnodd iddynt edrych ar ei ôl gan eu sicrhau fod ganddynt weinidog galluog a doeth tu hwnt a'i fod hefyd yn dipyn o gymêr. Sicraodd bawb y bydd yn gweithio'n ddi-baid trostynt ond i bawb gofio, mewn swydd sydd yn '24 x 7', fod rhaid cofio am y balans.



Rhai o'r plant yn diddanu yn ystod y Cyfarfod Sefydlu

# BE WNAETH Y CRYNWYR YN Y RHYFEL

## Hanes arddangosfa yng Nghadeirlan Bangor yn coffau Gwasanaeth Heddychol y Crynwyr

**C**ynhaliwyd arddangosfa yn manylu gwaith y Crynwyr yn ystod yr Ail Ryfel Byd yng Nghadeirlan Bangor o fore Llun 24 i Ddydd Sadwrn y 29 Awst. Lluniwyd yr arddangosfa ar y cyd gan 'Humanitarian and Conflict Response Institute', Prifysgol Manceinion, ac Ymddiriedolaeth Goffa Gwasanaeth y Crynwyr.

Mae'r Crynwyr, a adweinig hefyd fel Cymdeithas Crefyddol y Cyfeillion, yn parchu'n ddwfn 'yr hyn o Dduw' ym mhob un. Mae hyn yn eu harwain i arddel heddychiaeth, sydd, yn arbennig mewn cyfnod o ymladd, yn safbwynt anodd, ac weithiau amhoblogaidd. Yn ystod y ddau Ryfel Byd, bu Uned Ambiwlans y Crynwyr, a Gwasanaeth Cymorth y Crynwyr yn fodd i Grynwyr, nad oeddynt yn barod i ddefnyddio gwn, gynnig gwasanaeth dyngarol, ac ar yr un pryd barchu aelodau'r lluoedd arfog.



Roedd Uned Ambiwlans y Crynwyr yn gyfle i'r gwrthwynebwyr cydwybodol oedd wedi eu trwytho mewn cymorth cyntaf, meddygaeth maes ac iechyd cyhoeddus, weithio gyda'r lluoedd arfog, yn cynorthwyo'r rhai oedd wedi brifo. Collodd dau ar bymtheg aelod o Uned Ambiwlans y Crynwyr eu bywydau yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Roedd Gwasanaeth Cymorth y Crynwyr yn darparu cynhaliaeth dymor hir yn dilyn argyfwng uniongyrchol; trwy weithio gyda chymunedau i sefydlu rhaglenni bwydo, gwasanaethau iechyd ac addysg, a chynorthwyo dychweledigion o faes y gad. Sefydlwyd ganddynt hefyd hostelau i'r rhai oedd yn ffoi o fomio'r trefi mawr yn y DU, a threfnu lleoliadau gyda theuluoedd Crynwyr i ffoaduriaid.

Gwelid yn yr arddangosfa ddeunydd mewn llun a llais, yn cynnwys sgyrsiau gyda chyn-aelodau'r Gwasanaeth Ambiwylans a Gwasanaeth Cymorth. Hefyd ffilm archif, lluniau a memorabilia, posteri a thestun, i gyd yn rhoi cefndir i gredoau'r Crynwyr a'u gwaith parhaol am heddwch.

.....

*Mae gan aelodau o Gymdeithas Grefyddol y Cyfeillion, neu Grynwyr, ffordd o fwy sy'n ymrwymo i heddwch, symrlwydd, gwirionedd a chydreddoldeb. Mae'r ymrwymiad hwn wedi ei wreiddio a'i feithrin mewn addoliad distaw ac astud, sy'n tyfu o'r gred bod bywyd yn sanctaidd, a bod yna rhywbeth cysegredig ym mhawb. Does gan y Crynwyr dim set o gredoau sefydlog. Mae eu hundod yn seiliedig ar ddealltwriaeth ac arfer o addoli, sy'n sylweddoli nad ydi'r hyn a gredwn yr un fath i bawb. Mae ffordd y Crynwyr wedi ei wreiddio yn y Beibl a bywyd a dysgeidiaeth Crist, ond mae hefyd yn gweld gwerth ac ystyr ym mhob ffydd, gan gydnabod nad y ffydd Gristnogol yw'r unig un.*

*Efallai mai trwy eu 'Tystiolaeth Heddwch' yr adweinir y Crynwyr orau. Mae'n codi o'u hargyhoeddiad mai cariad sydd ganolog i fodolaeth, a bod dynoliaeth yn gyfartal yn llygaid Duw. Arweiniodd hyn i Grynwyr wrthod gwasanaeth milwrol, ac yn hytrach, gyfranogi mewn ystod eang o weithgareddau heddwch, o waith ymarferol mewn mannau sydd dan effaith gwrthdaro a thrais, i ddatblygu ffyrdd amgen er mwyn datrys anghytuno.*

*Rhagwelwyd yr Ail Ryfel Byd gan Grynwyr, a sefydlwyd ganddynt yr hyn a ddaeth yn Wasanaeth Cymorth y Crynwyr ac Uned Ambiwylans y Crynwyr. Roedd hyn yn gyfle i wrthwynebwyr cydwybodol wasanaethu ochr yn ochr ag ac eraill oedd yn arddel heddychiaeth. Roedd y gwaith yn anodd ac yn agored i'r un perygl ag aelodau o'r lluoedd arfog. Yn ystod yn Blitz roedd y Gwasanaeth Ambiwylans ar flaen y gad yn achub y rhai oedd wedi dioddef oherwydd y bomio, a'r Gwasanaeth Cymorth yn sefydlu hostelau i ymgartrefu pobl a phlant oedd yn ffoi rhag y trais.*

*Gartref ac ar y cyfandir, mae'r gwaith o hyrwyddo heddwch a chymod wedi parhau ers yr 1940au. Mae gwaith y Crynwyr o gadw sianeli cyfathrebu ar agor mewn mannau lle mae cymunedau'n rhanedig, er enghraifft Gogledd Iwerddon sy'n dal i barhau. Mae timau heddwch/cymorth yn gweithio ym Mwrwndi, Congo, Gaza, Korea, Kenya, Nigeria, Rwanda, Wganda, Fietnam, yr hen Iwgoslafia, a De America. Mae gan y Crynwyr swyddfeydd yn Efrog Newydd a Genefa, ac maent yn gweithio'n agos â'r Cenhedloedd Unedig.*

.....

**COFIWCH AM DUDALENNAU BERE A'R Y GWEFANNAU!**

[www.gofalaethbangor.org](http://www.gofalaethbangor.org) / [www.henaduriaetharfon.org](http://www.henaduriaetharfon.org)

# KAREN OWEN YN Y GYMDEITHAS

WILLIAM OWEN

**Y**newyddiadurwraig a'r bardd Karen Owen o Benygroes oedd y siaradwr gwadd yng nghyfarfod cyntaf y Gymdeithas y tymor hwn. Wedi ei haddysgu yn Ysgol Dyffryn Nantlle graddiodd mewn Mathemateg Bur ym Mangor ac roedd ei chyn-ddarlithydd, Ifor Morris, yn y gynulleidfa'n gwrando arni. Dewisodd drywydd gwahanol fel gyrfa gan ymuno â'r cylchgrawn 'Golwg' fel gohebydd ac yna bu'n olygydd iddo. Wedi hynny bu'n gyfrifol am

raglenni crefydd BBC Radio Cymru ym Mangor cyn mynd yn newyddiadurwr ar ei liwt ei hun. Bellach mae hi'n gohebu i'r *Cymro* ac yn cyfrannu i gyfryngau eraill yn ogystal â chynnal dosbarthiadau cynghaneddu.



Er pan oedd hi'n ifanc bu'n barddoni ac mae wedi ennill llu o gadeiriau a choronau. Sôn am gefndir rhai o'i cherddi a wnaeth wrth annerch y Gymdeithas, rhai a welir yn ei chyfrolau *Siarad trwy'i het a Glaniad*, barddoniaeth a ysgrifennodd ar y cyd â'r Prifardd Mererid Hopwood wedi iddynt ymweld â Phatagonia y llynedd. Mae ei cherddi'n gyffredinol yn adlewyrchu ei theithiau cyson drwy Gymru a thu hwnt.

Roedd yn sgwrsio'n ddifyr iawn ac roedd cynnwys y cerddi a ddarllenai, wedi iddi egluro'r cefndir, yn golygu llawer mwy. Llywydd y noson oedd William Owen a gofiai ei ffilmio gyda'i chadeiriau yn llenwi ei chartref pan oedd yn fyfyrwraig. Bryd hynny hefyd roedd yn aelod o Glwb Saethu'r Brifysgol.

Elizabeth Evans, Helen Morris a Gwenno Pritchard oedd yng ngofal y te. Yn y cyfarfod nesaf, Tachwedd 12, Enid Griffiths Porthaethwy fydd yn siarad, a theitl ei sgwrs fydd 'Tonau ac Alawon Gwerin Cymru'.

Croesewir rhagor o aelodau i'r Gymdeithas sy'n cyfarfod yn y festri unwaith y mis am 7.00 yn nhymor y gaef.



# CEISIWCH LES Y DDINAS...

---

**C**eisiwch les y ddinas... oedd testun pregeth y Parchedig Tecwyn Ifan yng Nghyfarfod Sefydlu'r Parchedig Olaf Davies yng nghapel Pendref ar Fedi'r 11eg eleni.

A llawenydd i'r Parchedig John Gwilym Jones oedd yn llywyddu'r cyfarfod oedd gweld cymaint o bobl o bob oed yn ceisio lles dinas Bangor y noson honno.

Daeth aelodau'r eglwysi sydd yn yr ofalaeth newydd ynghyd â llu o gyfeillion o bell ac agos mewn ysbryd llawen a gobeithiol i dystio i'w cefnogaeth i'r eglwys a'i gweinidog.

Roedd y sefydlu dan ofal cyn-weinidog yr eglwys, Y Parchedig Ddoctor Huw John Hughes a'r Urdd Weddi dan ofal y Parchedig Eric Jones a chymerwyd rhan gan weinidogion ac aelodau Pendref a Phenuel.

Gweddi hefyd oedd Emyn y Sefydlu gan Mrs. Rita Milton Jenkins

O cadarnha yn awr ei alwad gref...  
rho iddo ras  
I gyrchu'r gweddill brau i'r borfa fras.  
rho iddo nerth  
I gynnal egin gwan yr erwau serth.  
rho iddo ffydd  
I gredu daw y wyrth ar doriad dydd.

Dymunwn ninnau ym Merea Newydd bob bendith ar yr eglwysi a'u bugail.



## **MASNACH DEG**

**Cofiwch bob amser ein bod wedi cytuno fel eglwys i ymrwymo i Fasnach Deg, felly cofiwn ddefnyddio cynnyrch Masnach Deg, megis coffi, siwgr a bisgedi, yn ein holl gyfarfodydd.**

# HWYL YN Y GELLI GYFFWRDD

TRYSTAN RHYS OWEN (BL. 6)

## TRIP YSGOL SUL BERA NEWYDD

**A**r yr ail ddydd Sul o fis Medi ar ôl yr Ysgol Sul aethom ar drip i'r Gelli Gyffwrdd  
Roedd pawb wedi ymgynnull yn y fynedfa ac yna aethom i gael picnic ar y meinciau. Toc es i efo fy ffrindiau i grwydro. Y peth cyntaf i mi ei wneud oedd mynd i lawr ar y tobogan gyda fy ffrindiau. Ac roedd Elena fy chwaer wrth ei bodd yn mynd ar y tobogan lleiaf. Buom trwy'r ddrysfa (*maze*) ac aethom ar y Moon Karts (cartiau pedlo) ac roedd llawer o'r plant yn rasio yn erbyn ei gilydd a rhai o'r oedolion hefyd! Curais Owain ar y saethyddiaeth o 5 pwynt i ddim. Cefais hufen iâ gyda'g Elena yn y caffi cyn mynd ar y *rollercoaster* gyda Meilyr, Iolo ac Owain. Cefais brynhawn ardderchog gyda fy nheulu a ffrindiau'r Ysgol Sul. Fy hoff beth yn y Gelli Gyffwrdd oedd y *Green Dragon coaster* – roedd o'n wefreiddiol!




# LLYFRAU

ADOLYGIAD ERIC JONES

**Dilyn Ffordd Tangnefedd: Canmlwyddiant Cymdeithas y Cymod 1914–2014**  
**Gol. D. Ben Rees**  
**Cyhoeddiadau Cymraeg Modern, £15**

**Y**ng nghynhadledd y Ceidwadwyr y mis hwn, yr oedd Mr David Cameron yn cyfiawnhau ei ganiatâd i ddefnyddio'r 'Adar Angau' (yr awyrennau bach di-beilot) i ladd dau o gefnogwyr IS draw yn Syria. Gwyddom fod un ohonynt yn dod o Gaerdydd, a chyhuddwyd y ddau o gynllwynio i ymosod arnom yn yr ynysoedd hyn. Cafwyd addewid gan y Prif Weinidog yn ei araith y byddwn yn archebu mwy o awyrennau ac 'Adar Angau', gan gynnwys Trident, sy'n mynd i gostio can biliwn o bunnoedd; dyna 'ein hyswiriant', meddai.



Er disgwyl am dangnefedd gwir  
i lywodraethu'r byd,  
dan arswyd rhyfel mae ein tir  
a ninnau'n gaeth o hyd.

JOHN ROBERTS

Diolch fod rhywrai'n ceisio ein rhyddhau o'n caethiwed erchyll, trwy ein hannog i ddilyn 'ffordd tangnefedd'. Dyna waith Cymdeithas y Cymod, ac fe gawn gofnod o ymdrechion glew y Cymry'n bennaf, a fu'n hybu heddwach o 1914 hyd 2014, yn y gyfrol hardd uchod.

Ar y clawr fe gawn luniau George M. Ll. Davies, Gwynfor Evans, D. R. Thomas, Arfon Rhys a Waldo Williams, sef rhai o'r cewri a fu'n annog ffordd tangnefedd. Oddi mewn i'r gyfrol cawn bortreadau ohonynt hwy ac fe gyfeirir at lu o rai eraill a fu'n weithgar dros heddwach, heb angofio am brofiadau rhai o'r gwrthwynebwyd cydwybodol, fel Ithel Davies. Wynebu yfory a wna'r Dr Robin Gwyndaf gan atgoffa'r darllenwyr fod angen cydweithio dros heddwach gyda'r holl fudiadau eraill sy'n rhannu'r un amcanion, e.e. yr Urdd a Chymdeithas y Cenhedloedd Unedig Cymru (yn y Deml Heddwch yng Nghaerdydd) a llawer mwy. Pam na allai gynnwys yr Eglwys Gristnogol yn ei restr? Beth a ddaeth o'r syniad o greu Academi Heddwch yma yng Nghymru? Ceir yma weddiâu a cherddi ac araith gan y cyn-Archdderwydd, Yr Athro Christine James. Ymateb y meddwl a'r dychymyg llenyddol Cymraeg i bresenoldeb

sefydliadau milwrol ar dir Cymru a gawn gan yr Athro Damian Walford Davies yn ei erthygl gyfoethog, ‘Adar Angau’. Mae’n cloi trwy gyfeirio at erthygl yn y *Guardian* o dan y teitl ‘Hammond: Arms Exports are UK Priority – Defence Secretary Salutes “Fabulous” Weapon Fair’, gan ddyfynnu ohoni’r geiriau arswydus ‘A new generation of drones designed to look like birds of prey is being marketed to armies across the world.’

Diolch bod Anna Jane Evans ac eraill trwy eu protest ddiweddar yn enw Cymdeithas y Cymod yn ceisio ein deffro i realiti arswydus y dechnoleg ddiweddaraf, a’r masnachu anghyfrifol ar yr awyrennau hyn.

Taenu trais ar drais yn drwch  
Yw lladd i ennill heddwch.

JOHN PENRY JONES

‘Cerwch eich gelynion’ oedd gorchymyn Tywysog Tangnefedd, ond mae gennym obsesiwn gorffwyll gyda lladd ein gelynion yn hytrach na difa gelyniaeth. Mae’n amlwg fod gennym obsesiwn i greu mwy o arfau arswydus hefyd, gan beryglu bywyd yn gyfan gwbl ar y blaned hon. Yng ngeiriau D. R. Thomas, daeth yn amser i ni ddewis, a hwn fydd y ‘Dewis Olaf’.

Gwir y dywedodd Robin Gwyndaf, ‘Dyma drysor o gyfrol, a her o’r newydd i bob un ohonom.’ Cyhoeddwyd ei 300 tudalen trwy lafur cariad, felly peidiwn â gwarafun ei phrynu am £15.

ADOLYGIAD ALWYN ROBERTS

## **Y Deugain Mlynedd Hyn: Diwinydda yng Nghymru 1972-2015**

**D. Densil Morgan**

**Cyhoeddiadau'r Gair, £9.99**

**M**ae nifer ohonom yn adnabod Densil Morgan fel cyfaill, fel cyn-gydweithiwr a chymydog. Y mae hefyd yn ysgolhaig cynhyrchiol o’r radd flaenaf. Ymhlith ei weithiau mwyaf swmpus mae *The Span of the Cross* sy’n arolwg meistraidd o hanes crefydd yng Nghymru a thri chofiant treiddgar - i Lewis Edwards, Pennar Davies a’r diweddaraf ohonynt i Edward Matthews, Ewenni. Yn ychwanegol, yn y blynyddoedd diweddaf mae wedi dod I’r amlwg fel dehonglwr diwinyddiaeth un o’i bennaf arwyr - Karl Barth.



Mae sawl rheswm felly dros groesawu ei gyfrol ddiweddaraf, *Y Deugain Mlynedd Hyn*. Yn y rhan gyntaf ceir casgliad o'i erthyglau yn trafod hanes crefydd yng Nghymru a chyfraniad nifer o ddiwinyddion ond efallai mai'r bennod olaf, *Deugain Mlynedd o Ddiwinydda*, sydd o'r diddordeb mwyaf cyffredinol. Pennod o hunan-gofiant ydyw sy'n troi o gwmpas datblygiad argyhoeddiadau diwinyddol Densil. Dewisais y gair "argyhoeddiadau" yn fwriadol gan bod diwinyddiaeth yn llawer may na chorff o syniadau iddo. Yn ei eiriau ei hun, "Roedd darllen cyfrol gyntaf Y Ddogmateg Eglwysig (Karl Barth) yn f'ystawell dywyll yng nghefn hostel Bala Bangor yn ddigon i gipio 'fanadl. Roedd fy nghalon yn cyflymu a'r adrenalin yn pwmpio .." - profiad nad oedd yn gyffredin, hyd yn oed ym Mala Bangor!

Mae disgrifiad Densil o'i gyfnod yn Rhydychen yn dra dadlennol. Fe ddarganfu fod Cristnogaeth cyn Martin Luther ac eglwysi ar wahan i'r cynulleidfaoedd Bedyddiol! Rwy'n gor-ddweud wrth gwrs ond yn amlwg yr oedd Rhydychen yn gam sylweddol ar ei daith oddi wrth yr hyn a ddisgrifia ef ei hun fel "efengyliaeth amrwd" i fod "yn fath o gatholigwr efengylaidd". Y daith hon a'i gwnaeth yn gyfaill ac yn gyd-awdur â Donald Alchin - offeiriad Anglicanaidd a oedd yn drwm o dan ddyllanwad Eglwys Uniongred Groeg a than gyfriniaeth Ann Griffiths. Rhaid dweud bod darlun Densil o'r ddau ohonynt yn trafod diwinyddiaeth yn y Fat Cat o bobman yn codi gwên!

Wedi chwe blynedd hapus yn weinidog ar dair o eglwysi yng nghylch Penygroes Llanelli fe ddychwelodd yn ddarlithydd i Fangor. Welais i neb erioed yn dygymod mor gyflym ac effeithiol â newid byd. Fe ymrôdd i bob agwedd ar y bywyd academiaidd ac y mae colled fawr ar ei ol. Nid yw yn ymhelaethu ar y rhesymau dros iddo adael Bangor ar ol dwy flynedd ar hugain. Ni wnafl innau hynny ychwaith ond yn unig ddweud mai trychineb di-angenrhaid oedd cau'r Adran Astudiaethu Crefydd ac ni allaf ond llawenhau bod rhannau ohoni wedi eu hadgyfodi gan Is-Ganghellor goleuedig.

Beth am y gyfrol gyfan? Rhaid tystio i'w natur hael - ei theyrnedau i athrawon fel Alwyn Charles a Stanley John a gwerthfawrogiad Densil o'i ofalaeth ym Mhenygroes a'i aelodaeth gyda'n cymdogion ym Mhenuel. Ni allaf honni fy mod yn rhannu ei holl safbwyntiau ond pleser digymysg yw cydnabod ei gyfraniad disglair a haelfrydig.

## Gan mlynedd yn ôl

**Rhodd Canada. Nawn Mercher, dosbarthwyd rhan Bangor o'r rhodd haelionus gafwyd o Canada yn y Neuadd Drefol, pryd y cafodd tri chant o dlodion y ddinas barsel bob un yn cynnwys blawd a chaws. Rhoddwyd anerchiad gan Mr Thomas Edwards, High Street P.O., yn egluro y teimladau a symbylai Canada i anfon y rhodd fawr fuddiol ac amserol i'r Hen Wlad.**

Y DINESYDD CYMREIG 1915

# ALLAN O'R CYSGODION

CYNTHIA OWEN

**D**yma deitl y diwrnod a drefnwyd yng Ngholeg y Bala yn ystod mis Medi ar gyfer Chwiorydd y Gogledd. Cyfle oedd hwn i gymdeithasu a thrafod yng nghwmni merched eraill o wahanol ardaloedd, a'r diwrnod yn cael ei arwain gan ddwy o Weinidogion y Gogledd sef y Parchedigion Megan Williams a Gwenda Richards.

Tair ohonom a fentrodd o Berea Newydd sef Eirian Howells, Liz Roberts a finne, a chawsom ddiwrnod wrth ein bodd yn sgwrsio a thrafod a chael newyddion am waith y Chwiorydd yn y Gogledd.

Roedd y drafodaeth wedi ei seilio ar ddarlith feistrolgar y Barch Megan Williams a draddodwyd gyntaf yn y Gymanfa Gyffredinol yn Aberystwyth ym mis Gorffennaf. Gan mai hi oedd y ferch gyntaf i gyflwyno'r Ddarlith Davies mewn 120 o flynyddoedd roedd yn naturiol iddi ddewis pwnc yn ymwneud â merched. Soniodd am y lle eilradd sydd i'r ferch yn yr ysgrythyrau ac fel y mae hynny wedi dylanwadu ar agwedd yr eglwys a chymdeithas at y ferch dros y canrifoedd. Byddai'n dlawd iawn ar sawl eglwys heddiw heb gyfraniad y merched – a'r duedd o hyd i'w hystyried fel ceidwaid y cwpwrdd llestri yn unig!

Rydym yn gyfarwydd ag agwedd yr Apostol Paul at ferched ond llwyddodd Megan Williams i ddangos llu o engreiffitiau eraill o'r ysgrythyrau sydd wedi gosod merched mewn lle israddol a hynny byth ers y rhagfarnau yn deillio o hanes Adda ac Efa yng Ngardd Eden.

Cafwyd digon i gnoi cil arno yn y ddarlith a deunydd trafodaeth ar y diwedd cyn troi am adref wedi diwrnod llawn yn y Bala.

## Y Parch Camwy Evans

**Yn y "Drafod" (newyddiadur y Wladfa Gymreig ym Mhatagonia) a ddaeth i law ddydd Sul y mae hanes cyfarfod croesaw y Parchn Morgan Daniel, B.D. (gynt o Fangor) a J. Camwy Evans (gweinidog eglwys Annibynol Pendref Caernarfon, yr hwn ar ol ei sefydlu oddeutu tri mis yn ol a aeth ar ymweliad â'i gartref yn y Wladfa gyda'i wraig). Cynhaliwyd y cyfarfod croesaw yng Nghapel y Gaiman, ar y 16eg o Fedi. Yn ystod ei sylwadau gwnaeth y Parch Morgan Daniel, gyfeiriad dymunol at briod hawddgar y Parch J. Camwy Evans, ei bod yn addurn i'w gŵr ac yn anrhydedd i'r eglwys lle yr oedd yn aelod ohoni ym Mangor; ac fel arwydd o barch iddi cododd y gynulleidfa ar ei thraed.**

YR HERALD CYMRAEG 1915

# RHWNG GWEDDI A GWÊN

BRUCE GRIFFITHS

## DIOLCH BYTH !

Byddai'r Gweinidog yn cynnwys gweddi o ddiolchgarwch cyn ei bregeth bob Sul. Diolchai am gael cydaddoli, am yr hindda neu unrhyw beth arall addas. Daeth diwrnod garw yn Chwefror, gydag eira ar lawr a gwyntoedd oer eu min, a neb ond dau flaenor yno i agor y drysau a goleuo'r lampau. Tybed pa beth a gâi'r Gweinidog i ddiolch amdano'r tro hwn? Byddai'n anodd iawn. Ond esgynnodd i'r pulpud a dechrau yn ôl ei arfer, "Diolchwn iti, Arglwydd, ... nad yn aml y cawn ni ddyddiau trybeilig fel heddiw!"

## DEHONGLI DAMEG

Soniodd athro ysgol Sul am ddameg y mab afradlon a holodd "Pan ddaeth y mab adref, trefnodd ei dad barti gwyh, gan ddisgwyl i bawb fod yn llawen. Ond mi fu un na theimlodd o ddim ond tristwch mawr. Pwy oedd hwnnw, meddech chi?" Atebodd llais bach digalon, "Ai'r llo pasgedig oedd o?"



## TYBED?

(Cyhoeddiad yng nghylchgrawn capel) Codwyd Mr Jonah Jones yn Ben Blaenor. Ni ellid cael neb gwell.

## GWELWYD Y TU ALLAN I EGLWYS :

'Dyma breswylfod Duw. Dyma byrth y Nefoedd'  
(Bydd y drysau hyn ynghau yn ystod y gaeaf)

## O BIG ADERYN ...

Ar ymweliad bugeiliol ag aelod newydd, sylwodd y Gweinidog fod ganddi boli parot. Yr oedd rhuban coch wedi ei glymu am un goes iddo, a rhuban glas am y llall. 'Un hardd ydi'ch parot chi,' meddai, 'ond i be' mae'r rhubanau'n dda ?

Meddai Mrs Roberts, 'Mae a wnelon' nhw â'm ffydd i, Mr Jones' 'Sut hynny, felly?' meddai yntau. 'Wel, pan fydda' i'n teimlo'n ffyddiog iawn, mi fydda' i'n tynnu'r rhuban coch a bydd y parot yn canu 'I bob un sy'n ffyddlon'; a phan fo fy ffydd i'n gwanhau, mi fydda' i'n tynnu'r rhuban glas a bydd y parot yn canu 'Yn y dyfroedd mawr a'r tonnau'. 'Bendigedig !' meddai'r Gweinidog, 'ond be' sy'n digwydd pan dynnwch chi'r ddau ruban ?' Ac meddai'r parot, 'Mi fydda' i'n syrthio oddi ar y glwyd, wrth gwrs!'

# ENWAU LLEOL

.....  
GLEND A CARR

## PORHTHAETHWY

.....

**A**wn ar draws Afon Menai y tro hwn i Borthaethwy. Bu'n rhaid i'r hen enw hwn ymladd i orosi ar un adeg rhag iddo gael ei drechu gan yr enw diweddarach Saesneg. Dyna'r cyfnod pan oedd yn well gan bobl gyfeirio at Portdinorwic, Llanfair P.G. a Menai Bridge nag at Y Felinheli, Llanfairpwll a Phorthaethwy. Ond mae Porthaethwy yn hen enw. Ceir cofnod ohono ym mhapurau'r Penrhyn yn archifau'r Brifysgol fel *porthaythoy* yn 1413 a *Porthaythwy* yn 1505.

Er mai'r bont yw prif nodwedd Porthaethwy heddiw, yr oedd yr un mor enwog a phwysig ers talwm oherwydd mai yno yr oedd un o brif groesfannau Afon Menai. Clywsom ddigon o sôn am y fferi, ac am y gwartheg yn cael eu gyrru i nofio ar draws y dŵr gan mai yma y mae'r afon ar ei chulaf. Ond yr oedd yma borthladd a chroesfan ganrifoedd lawer yn ôl a ddefnyddid gan y llwyth a oedd yn byw yn y rhan hon o Ynys Môn. Enw'r llwyth hwnnw oedd y Daethwy. Gwelir eu hól yn gliriach yn yr enw Dindaethwy. Ystyr yr enw hwnnw yw din, sef caer neu gadarnle'r Daethwy. Daeth Dindaethwy yn ddiweddarach yn enw ar y cwmwd ac fe'i camsillefir yn aml fel Tindaethwy.

Yr oedd yn naturiol i'r llwyth gyfeirio at eu porth fel Porth Ddaethwy. Ond mae'n anodd dweud yr enw Porth Ddaethwy heb i'r *th* ar ddiwedd Porth a'r *dd* ar dechrau Ddaethwy gyfuno yn un sain a rhoi Porthaethwy. Anghofwyd yr enw gwreiddiol a thybiwyd mai porth + Aethwy oedd yma. Dechreuwyd defnyddio Aethwy fel enw annibynnol, er na fu'r fath enw erioed. Aethwy oedd yr enw a roddodd Sir Fôn ar y dosbarth gwledig lleol yn 1894, ac fe'i defnyddir hyd heddiw mewn enwau tai, megis Bryn Aethwy, ac enw Ysgol Glan Aethwy. Neuadd Aethwy hefyd oedd enw un o neuaddau'r Coleg Normal gynt, a ddaeth wedyn yn gartref i Ganolfan Bedwyr am gyfnod. Mae'n werth cofio mai'r hen lwyth brodorol Daethwy sydd yn cuddio yn yr enwau hyn.




**COFIWCH AM DUDALENNAU BERE A'R Y GWEFANNAU!**

[www.gofalaethbangor.org](http://www.gofalaethbangor.org) / [www.henaduriaetharfon.org](http://www.henaduriaetharfon.org)



# CORNEL CODI GWÊN

GLYN LLOYD JONES



'Dwi newydd gofio lle y gwelais i chi or blaen ...  
Yma yn yr un gwasanaeth llynedd!

## Myfyrwyr Fel Gwrthwynebwyr Cydwybodol

Bu Pwyllgor Apêl Bangor yn eistedd am deirawr nos Lun yn gwranddo “gwrthwynebiad cydwybodol” myfyrwyr Coleg Bala-Bangor (A) i wasanaethu yn y fyddin. Un ar ddeg o achosion allwyd drafod, gohiriwyd y lleill am bythefnos. Caniatawyd cwbl ryddhad i ddau oedd wedi cael galwad sicr i eglwysi, Mr. George Jones a Mr David Smith. Ceisiodd Mr. R. G. Owen (25) gael ei esgusodi ar dir afiechyd ac hefyd fod rhyfel yn groes i Gristionogaeth. Bu yn aelod o Frawdoliaeth Cymodiad er Mai, 1915. Efo oedd unig fab ei fam weddw, yr hon a gynhaliai. Yr oedd efe, hefyd, bron yn ddall. Gofynnodd y Maer iddo a oedd Prydain wedi gwneud o’i lle wrth geisio amddiffyn Belgium gyda byddin? Nid wyf yn barod i ateb hynyna. A ydych yn tybio y buasech yn gweithredu’n bechadurus wrth fyn’d i’r fyddin? Ni buaswn yn hoffi dweud ei fod yn bechadurus, ond buaswn yn myn’d yn groes i ‘nghydybod.

Gofynnodd Mr Vincent beth am fwynhau ein breintiau presennol. Owen: Yr wyf mewn trwbl mawr parthed hyn. Y mae gennyf gyfeillion yn y fyddin, ac yr wyf yn gorfod gwahaniaethu oddiwrthynt. Yr wyf wedi ceisio arwain fy hun i’r syniad o fyn’d i’r fyddin, ond y mae fy nghydybod yn fy ngorfodi i barhau’r gwaith o bregethu’r egwyddorion yr wyf yn sefyll drostynt. Esgusodwyd ef rhag cymeryd rhan i ymladd yn y fyddin.

YR HERALD CYMRAEG 1916

# SALM AC EMYN

---

	SALM	EMYN
1 TACHWEDD	Iolo Evans 1	Danial Jones 372
8 TACHWEDD	Carwyn Siôn 100	Siôn Steffan 411
15 TACHWEDD	Alys McCann 23	Eleri Roberts 399
22 TACHWEDD	Ela Vaughan 67	Beca Lois 373
29 TACHWEDD	Owain Edwards 21	Llio Eurgain Williams 406
6, 13 a 20 RHAGFYR	Ymarfer Gwasanaeth Nadolig	

## Diolch yn fawr am eich cyfraniad.

Os bydd plentyn neu deulu'n newid Sul gyda rhywun arall,  
hysbyser Kathy - [kathysion@btinternet.com](mailto:kathysion@btinternet.com) neu 364957. Diolch.

---

**OES GENNYCH CHI SYNIAD, SYLW, LLUN NEU UNRHYW  
GYFRANIAD YR HOFFECH EI RANNU GYDA DARLLENWYR *ICHTHUS*?  
Y 6ed O IONAWR YW'R DYDDIAD OLAF AR GYFER EU DERBYN**



E-BOST: [gdeiniol@hotmail.com](mailto:gdeiniol@hotmail.com) neu [capelbera@gmail.com](mailto:capelbera@gmail.com)

LLYTHYR: 4 Goleufryn, Penrhosgarnedd, Bangor LL57 2LY

# Y DIGWYDDIADUR

---

## HYDREF

Iau 29ain

Seiat Berea Newydd. Penblwydd Cymorth Cristnogol: y gwaith a'r gofyn - Anna Jane Evans.

---

## TACHWEDD

Iau 5ed

Seiat Berea Newydd. Priodasau cyplau o'r un rhyw, trafodaeth gychwynnol: Elwyn Richards.

---

Iau 12fed, 7yh

Y Gymdeithas. Enid Griffiths, Porthaethwy yn siarad a theitl ei sgwrs fydd 'Tonau ac Alawon Gwerin Cymru'.

---

Iau 19eg, 7yh

Berea Newydd: Ms. Gwerfyl Roberts, Uwch Ddarlithydd yn Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd Prifysgol Bangor, ac aelodau o'i thîm, yn sôn am eu hymchwil ym meysydd cyfathrebu efo cleifion ac unigolion bregus.

---

Iau 26ain

Seiat Berea Newydd. 'Agwedd y Beibl at wragedd', cipolwg ar Efa Megan Williams.

---

## RHAGFYR

Iau 3ydd

Seiat Berea Newydd: Arwyddocâd y Nadolig: cyfranwyr amrywiol.

---

## IONAWR 2016

Iau 14eg, 7yh

Cymdeithas Berea Newydd. Dr B. Griffiths: 'Gwerin-Eiriau'.

---

## CYFARFOD PWYSIG

---

**Croeso  
cynnes i  
BAWB**

O ddiddordeb i'r lluo ohonoch chi, ddarllenwyr *Ichthus*, sy'n dawel a diffwdan yn ymweld yn gyson â'n cyd-aelodau yn eu cartrefi eu hunain, cartrefi preswyl a nyrsio a'r ysbytai.

Ar Nos Iau, Tachwedd 19eg am 7 o'r gloch bydd Ms. Gwerfyl Roberts, Uwch-ddarlithydd yn Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd Prifysgol Bangor ac aelodau o'i thîm ym Merea Newydd i sôn am eu hymchwil ym meysydd cyfathrebu efo cleifion ac unigolion bregus.

Byddant yn awyddus i glywed am ein profiadau ni hefyd.

# YMWELWYR O'R INDIA



Bore Sul, 4 Hydref, cynhaliwyd Oedfa Deulu ym Merea Newydd pryd y croesawyd ymwelwyr o India i'r gwasanaeth. Roedd Mr a Mrs Fidel War, a'u mab Hyoyoio a'u merch Fiona, o Shillong yng Ngogledd Ddwyrain India, yn aros gyda Mr a Mrs Gwynn Angell Jones yn y Felinheli am rai dyddiau. Roeddynt wedi dyheu am gael ymweld â Chymru - y wlad a ddaeth â chenhadon a'r efengyl i fryniau Casia a Jaintia. Roedd arnynt hefyd eisiau olrhain hanes rhai o'r cenhadon meddygol fel Miss Marian Prichard fu'n byw yn Hen Golwyn ar ôl dychwelyd o'r maes cenhadol.

Mae gan Mr War gysylltiad swyddogol ag ysbyty Dr Norman Tunnel ym mhentref Jowai. Ef yw cadeirydd y pwyllgor rheoli ers chwe blynedd ac mae newydd gael ei ail-ethol am dair blynedd arall.

Thema'r gwasanaeth oedd 'Perthyn i Deulu Duw' a chafwyd cyfle i sôn am y cysylltiad rhwng Cymru a Gogledd Ddwyrain India. Diolchodd Mr War hefyd am bob cymorth a dderbyniodd ysbyty Jowai gan aelodau Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac adroddodd y Gweinidog ychydig o hanes ei ymweliad ef â'r ysbyty.

Cyflwynwyd anrhegion i Mr War a'i deulu ar ran yr ysgol Sul a'r eglwys gan Ms Menna Baines, a diolchodd Mr Wyn Griffiths i bawb a gymerodd ran yn y gwasanaeth.